Gwen Lasarus

Enw: Gwen Lasarus

Dyddiad Geni: 13 Hydref 1957

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Cefais fy ngeni lle mae siop PC World ym Mangor erbyn hyn (Ysbyty Dewi Sant gynt) a'm magu yn Llanfairpwllgwyngyllgogery-chwyrndrobwllantysiliogogogoch, ac wrth fy modd yn cael deud hynna!

Ble cawsoch chi eich addysg? Yn Ysgol Gynradd Llanfair Pwll, ac Ysgol David Hughes, Porthaethwy, Môn. Symud i Goleg y Drindod, Caerfyrddin ac yna i astudio Perfformio yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Ro'n i wrth fy modd yn chwarae 'Giant Steps, Baby Steps', 'Faint o'r gloch ydi hi, Mr Blaidd?' a 'British Bulldog' yn y buarth amser chwarae, yn yr ysgol fach. Ro'n i'n casáu byta iau/afu i ginio.

Beth yw eich prif ddiddordebau? Cerdded, sgwennu, Yoga, mynd allan hefo fy ffrindiau a chwarae'r piano.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Cwmni fy nheulu a'm ffrindiau.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Baw ci ar y stryd.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu? Mi ddechreuais i sgwennu'n ifanc iawn, tua 7 oed, a dwi wedi sgwennu ers hynny.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf? *Love Hearts i Bosnia*, drama i bobl ifanc.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu? Ydw, dwi'n mwynhau sgwennu, os dwi'n cael digon o amser a bod dim brys.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau? Weithiau daw syniad o rywbeth mae rhywun yn ei ddweud. Daeth y syniad am *Love Hearts i Bosnia* o stori wir yn y papur newydd. Daeth *Sgribls Hogan Flêr* o'm hisymwybod yn ddwfn yn rhywle.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu? Peidiwch â bod ofn sgwennu, sgwennwch rywbeth i ddechrau a buan y bydd o'n tyfu.

Pam ydych chi wedi dewis ysgrifennu ar ffurf dyddiadur? Am ei fod yn ffordd hawdd o gadw trefn ar nofel. Weithiau ro'n i'n teimlo fel sgwennu llwyth ar un diwrnod, dro arall dim ond pwt byr. Ro'n i'n cael sgwennu yn ôl fy mympwy.

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan? Dwi'n reit hapus, diolch.

Er pan dwi'n cofio dwi wedi mwynhau gwrando ar sgyrsiau pobol eraill mewn caffis, ar y trên, mewn siopau – maen nhw'n llawer mwy diddorol na'r sgyrsiau dwi'n eu cael! Ond pan fo rhywun yn deud cyfrinach wrth ei ffrind, dyna pryd mae'n mynd yn ddiddorol. Dwi'n casglu syniadau ar gyfer fy llyfrau fel hyn hefyd, felly gwyliwch be dach chi'n ddeud! Dwi wedi cael anrheg arbennig yn fy sgwennu, ac mae'n gwneud i mi deimlo'n hapus os ydi pobl yn mwynhau darllen fy llyfrau.

Fy uchelgais nesa ydi dechrau rhwyfo mewn cwch hir, cerdded mynyddoedd Eryri, a cherdded llwybr arfordir Penfro i gyd.

Fy mreuddwyd ydi mynd ar daith i Norwy a gweld y 'Northern Lights', a chlywed Tom Jones yn canu.

Eleni mi dyfais i datws yn yr ardd am y tro cynta erioed, a phan fydda i yn yr ardd rydw i'n cael cyfle i ymlacio a meddwl.

Pan fydda i'n hen dwi am fynd i gaffis hefo fy ffrindiau i siarad, chwerthin ac yfed te, a darllen llyfrau drwy'r dydd.

CYNGOR LLYFRAU CYMRU 2004

gwales.com

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Llyfrau

Cyfres Nofelau i'r Arddegau

Sgribls Hogan Flêr
0862435684 £3.95

Snogs a Sgribls Hogan Flêr
0862436710 £3.95

Cyfres y Dolffin

Love Hearts i Bosnia
1900563010 £2.50

Nifer o lyfrau yn y gyfres Dwy-Es

Lluniau: Geraint Llywelyn